Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Landsker Education

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2017**

## Cyd-destun

Mae Landsker Child Care yn cynnig pecyn gofal preswyl ac addysg integredig i ddisgyblion 'sy'n derbyn gofal' ac sydd â heriau yn eu dysgu. Mae gan y disgyblion amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae 26 o leoedd preswyl wedi'u lledaenu ar draws saith cartref plant ar wahân y sefydliad. Mae tri o'r cartrefi hyn yng nghefn gwlad Sir Benfro, dau yn ardal Castell-nedd Port Talbot, un ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac un ym Mro Morgannwg.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn yn dymhorol ym mhob un o'r cartrefi plant. Ar adeg yr arolygiad, roedd 17 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae un dosbarth ym mhob cartref. Mae maint y dosbarthiadau yn amrywio o un i bedwar disgybl. Mae saith athro amser llawn, bob un ohonynt â statws athro cymwysedig. Mae athro allweddol ym mhob dosbarth ar gyfer tridiau o'r amserlen. Mae athrawon yn cymryd eu tro yn nosbarthiadau'r ysgol ar gyfer y deuddydd arall i rannu eu harbenigedd, a chynnig newid mewn staff ac amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion. Mae Landsker hefyd yn cynorthwyo'r bobl ifanc eraill sy'n preswylio yn y cartrefi i'w galluogi i fynychu darpariaeth addysg brif ffrwd leol.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r ddarpariaeth addysg a'r safonau ar draws y saith dosbarth. Mae hi'n ymweld â phob dosbarth o leiaf ddwywaith bob hanner tymor i gynnal asesiadau o ddisgyblion, monitro eu cynnydd a mynychu eu cyfarfodydd adolygu. Mae staff addysgu'n cyfarfod yn ffurfiol ddwywaith bob tymor ond maent yn cyfathrebu'n electronig â'i gilydd yn rheolaidd.

Yn ystod yr arolygiad hwn, ymwelodd y tîm â dosbarthiadau mewn pedwar o gartrefi plant Landsker.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol lle mae gan staff a disgyblion berthynas weithio dda. Mae staff yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i gynnal cymhelliant disgyblion a meithrin eu hunan-barch. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mynychu'n rheolaidd, yn canolbwyntio ar y dasg trwy gydol y wers ac yn cwblhau gwaith i safon uchel.

Mae disgwyliadau uchel gan staff o ddysgu ac ymddygiad disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi sy'n ysgogi diddordeb disgyblion ac yn bodloni'u hanghenion dynodedig yn dda.

Ceir cydweithredu cadarn ar draws y dosbarthiadau sy'n sicrhau dull cyson o weithredu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

## Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asesiadau gwaelodlin pan fydd disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd trwy gynnal ail brofion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r asesiadau yn ddigon da pan fyddant yn gosod targedau yng nghynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella'r defnydd o ddata asesu i osod targedau llythrennedd a rhifedd heriol i'r holl ddisgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Tynhau'r system asesu risg ar gyfer ymweliadau ysgol trwy sicrhau bod ffurflenni wedi'u llenwi a'u llofnodi gan yr unigolyn sy'n gyfrifol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle. Erbyn hyn, mae staff yn cwblhau asesiad risg cynhwysfawr a gaiff ei lofnodi gan uwch aelod o staff cyn y cynhelir y gweithgaredd.

**Argymhelliad 2: Lleihau'r risgiau i ddisgyblion ac athrawon sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd un i un yn ystod amser gwersi strwythuredig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun. Maent wedi cryfhau trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau dynodedig. Mae hyn yn cynnwys cymorth staff ychwanegol i fyfyrwyr ag ymddygiadau risg uchel.

Mae staff addysg a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i greu amgylchedd diogel ac anogol sy'n bodloni anghenion dysgu a lles disgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Standard 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Landsker Education |
| **Rhif yr ysgol** | 6686016 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 02/11/2016 |
| **Perchennog** | Paul Thomas |
| **Staff** | 1 Pennaeth a 7 Athro amser llawn |
| **Nifer y disgyblion** | 17 |
| **Darpariaeth** | 52 Wythnos Preswyl |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol<br>Anawsterau Ysgafn i Gymedrol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 05/11/2012 |
| **Ymweliad monitro blynyddol diwethaf** | 02/02/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Tîm |